Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 7 Mai 2014
Siambr y Cyngor, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Heledd Bebb, Dr Dylan Foster Evans, Dr Carwyn Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry (tan 12.50), Dr Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts (tan 3.00), Yr Athro Deri Tomos
Aelodau (Sefydliad):	Dr Gwenno Ffrancon, Dr Anwen Jones, Dr Lisa Lewis, Dr Gina Morgan, Dr Angharad Naylor
Aelodau (Myfyrwyr):	Gwion Rhys Dafydd, Rhiannon Hincks, Aled Illtud, Matthew Rees, Cara Llwyd Thomas
Aelodau (Colegau Cymru):	Llinos Roberts (tan 3.00), Carys Swain, Linda Wyn (tan 3.00)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)
Ymddiheuriadau:	Julie Brake, Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies, Jacob Ellis, Gwenno Gibbard, Elidyr Glyn, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Gwyndaf Lewis, Yr Athro Densil Morgan, Huw Morris (ex-officio), Siân Beynon Powell, Dr Gwennan Schiavone, Dr Siân Wyn Siencyn, Dr Enlli Thomas

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Caerdydd am letya'r cyfarfod ac i Elliw Iwan am hwyluso manylion y dydd. 1.3. Croesawyd Heledd Bebb (penodiad gan y Coleg), Gwion Rhys Dafydd, Rhiannon Hincks, Aled Illtud a Matthew Rees (cynrychiolwyr myfyrwyr 2014/15) i'w cyfarfod cyntaf. 1.4. Nodwyd llongyfarchiadau i Dr Angharad Naylor ar gwblhau cymhwyster tystysgrif addysg PCUTL.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2014	3.1. Cytunwyd i ail-ysgrifennu ail frawddeg cofnod 11.3. 3.2. Yn dilyn cywiro'r cofnodion cytunwyd i'w derbyn.	Swyddog Datblygu i ddiwygio'r cofnod	Mai 2014
4. Aelodaeth	4.1. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15. Nodwyd y penodwyd y canlynol: **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain** – Rhiannon Hincks, Prifysgol Caerdydd a Rhodri Organ, Prifysgol De Cymru **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Orllewin** – Gwenno Gibbard a Gwyndaf Lewis – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **Cynrychiolwyr Prifysgolion y Gogledd Orllewin** – Gwion Rhys Dafydd ac Aled Illtud – Prifysgol Aberystwyth **Cynrychiolydd ÔI-Raddedig** - Matthew Rees, Prifysgol Aberystwyth 4.2. Nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Cara Llwyd Thomas fel cynrychiolydd myfyrwyr a diolchwyd iddi am ei chyfraniad. 4.3. Cynigiwyd a derbyniwyd addasu'r Cylch Gorchwyl i gynnwys Swyddog Iaith Gymraeg UCMC yn aelod llawn o'r Bwrdd Academaidd a hynny'n rhinwedd ei swydd.	Addasu'r Cylch Gorchwyl	Ar unwaith
5. Cynlluniau pynciol	5.1. Cyflwynwyd diweddariad o'r cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd gan gynnwys targedau niferoedd 2015/16. Nodwyd y bwriad i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd sydd heb gynllun pendant eto gan gyfeirio'n arbennig at rhai cynlluniau sy'n pontio	Diweddaru'r ddogfen cynlluniau pynciol a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf	15 Hydref 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	mwy nag un maes. 5.2. Derbyniwyd a nodwyd tabl yn nodi statws cyfredol nifer o'r cynlluniau sydd eto i'w cadarnhau gan y Bwrdd Academaidd. 5.3. Cyflwynwyd cynlluniau ym meysydd Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol ac wedi trafodaeth derbyniwyd y cynlluniau mewn egwyddor ar wahân i fan ddiwygiadau golygyddol (Adroddiad Statws 2). Yn dilyn trafodaeth fanwl yn nodi'r niferoedd, strwythur a data cytunwyd bod angen i'r Panel ddatblygu'r Cynllun Astudiaethau Iechyd ymhellach cyn ei gymeradwyo (Adroddiad Statws 3). 5.4. Cyflwynwyd y Cynllun Diwydiannau Creadigol ac, yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gwblhau'r cynllun a chysoni'r data erbyn y cyfarfod nesaf (Adroddiad Statws 3). Cyflwynwyd y cynlluniau newydd ym meysydd Gwyddorau Naturiol (Biowyddorau a Chemeg) a Seicoleg. Derbyniwyd y cynlluniau mewn egwyddor gan nodi'r mân ddiwygiadau golygyddol (Adroddiad Statws 2). 5.5. Dosbarthwyd y Cynllun Daearyddiaeth, er gwybodaeth yn unig; a hynny er mwyn nodi'r newid i'r targedau yn sgil datblygu'r cynllun Gwyddorau Naturiol (Biowyddorau a Chemeg). 5.6. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar broses ddiweddaru'r cynlluniau pwnc. Awgrymwyd amserlen o gyflwyno'r cynllun yn flynyddol i'r Panel Pwnc ac adolygu'r cynllun bob tair blynedd i'w cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. 5.7. Er mwyn adolygu'r cynllun argymhellwyd trefnu cyfarfod penodol o'r panel, adroddiad ar weithrediad y cynllun, adolygiad gan aelod o'r Bwrdd Academaidd ac arfarnwr allanol, papur byr tair rhan i gynnwys: a) Adroddiad y Cadeirydd / Swyddogion b) Arfarniad yr aelod o'r Bwrdd	Diwygio'r cynlluniau	15 Hydref 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	c) Argymhellion am newidiadau / diwygiadau i'r Cynllun Pwnc a diweddariad i'w gylchredeg. 5.8. Yn dilyn trafodaeth a sylwadau'r aelodau penderfynwyd y gallai'r swyddogion benderfynu ar y cynllun adolygu terfynol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd nesaf. 5.9. Nodwyd diolch i'r Paneli Pwnc a swyddogion y Coleg am eu gwaith yn cydlynu a hwyluso'r cynlluniau. 5.10. Nodwyd bod mwy o weithgareddau amlddisgyblaethol yn cael eu datblygu yn y sefydliadau, a bod nifer o ddyfarniadau diweddar yn adlewyrchu hyn. Cytunwyd y byddai angen ystyried sut i ymgorffori gwybodaeth am ddatblygiadau o'r fath yn y cynlluniau pynciol.	Paratoi cynllun adolygu terfynol	15 Hydref 2014
6. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	6.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar drafodaeth y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a gyfarfu ar 30 Ebrill 2014. Adroddwyd bod proses mewn lle i hwyluso cydweithio academaidd dan nawdd y Coleg ar ffurf cytundeb fframwaith a bod nifer y modiwlau cydweithredol yn cynyddu. 6.2. Nodwyd cofnodion 22 Ionawr 2014, er gwybodaeth.		
7. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	7.1. Cylchredwyd Llythyr Gorchwyl y Gweinidog Addysg a Sgiliau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. 7.2. Gwahoddwyd y Bwrdd Academaidd i nodi'r cymalau (22 a 23 yn benodol) yn y llythyr sy'n cadarnhau rôl y Coleg ynghylch Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA). 7.3. Croesawyd y cynlluniau a amlinellwyd yn y llythyr yng nghyd-destun HCA er bod aelodau yn nodi mai prin iawn yw'r cyfeiriadau at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y llythyr gorchwyl.		
8. Adolygiad Strategol	8.1. Cafwyd adroddiad llafar gan Dr Dylan Phillips ar		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	adolygiad y prosiect 'Rhowch Gynnig Arni'.		
9. Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil **(BA/14/02/9iii)**	9.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Staffio Academaidd a Chynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg. 9.2. <u>Ysgoloriaethau Ymchwil:</u> Adroddwyd bod dros 50 o ysgoloriaethau ymchwil wedi'u dyfarnu erbyn hyn gyda 10 wedi'u dyfarnu eleni. Bydd cyfarfod cynefino ar 12 Medi 2014 yng Nghaerfyrddin. Awgrymwyd y byddai dyfarniadau 2015/16 yn ddibynnol ar y sefyllfa gyllidol. 9.3. <u>Cynllun Staffio:</u> Bydd 20 o'r deiliaid swyddi newydd wedi'u penodi erbyn Mehefin 2014 gyda 98 o swyddi erbyn tymor yr Hydref 2014. Derbyniwyd adroddiad llafar gan y swyddogion ar eu trafodaethau gyda'r prifysgolion unigol ynghylch cynaladwyedd swyddi a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio. 9.4. Cafwyd adroddiad cynnydd ar y drefn newydd o ddyfarnu ysgoloriaethau ymchwil, gan gynnwys patrwm o osod amod mewn sawl achos y dylai'r traethawd gael ei gyflwyno yn y Gymraeg. 9.5. Derbyniwyd copi o weithdrefn y Coleg ar gyfer cyflenwi absenoldebau mamolaeth a thadolaeth. Yn dilyn trafodaeth fer cynigiwyd rhai man ddiwygiadau.		
10. Cynllun Strategol y Coleg	10.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar y drafft diweddaraf a gylchredwyd. 10.2. Nodwyd sylwadau'r aelodau i'w cynnwys yn y Cynllun Strategol. Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at yr argymhelliad i'r prifysgolion unigol y dylai myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gael eu cofrestru, yn y man cyntaf, ar gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg. Byddai rhyddid wedyn i'r myfyrwyr nad oedd yn dymuno astudio yn y Gymraeg i newid cyfrwng wedi cyrraedd y brifysgol.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cymeradwywyd yr argymhelliad gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2014. Nodwyd y byddai'r Coleg yn dosbarthu cylchlythyr yn fuan. 10.3. Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad ffurfiol pan fyddai cyfle i'r sector a chyrff eraill, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Academaidd, i gynnig sylwadau ar y Cynllun Strategol erbyn 10 Mehefin i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 18 Mehefin 2014.		
11. Astudiaethau Cyfieithu	11.1. Cafwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr ar y prosiect strategol ym maes Astudiaethau Cyfieithu. Nodwyd bod y sefydliadau wedi cytuno mewn egwyddor i sefydlu consortiwm cydweithredol a fyddai'n hwyluso darpariaeth genedlaethol sy'n ymateb i'r diwydiant cyfieithu ac yn codi statws cyfieithu fel maes proffesiynol. Nodwyd bod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Adran Gyfieithu'r Llywodraeth a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r trafodaethau.		
12. Prosiectau peilot: addysg bellach	12.1 Cafwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr ar y pum prosiect peilot a gyllidir gan y Coleg mewn sefydliadau addysg bellach gyda chydweithrediad Colegau Cymru.		
13. Cydlynydd Wicipedia (BA/14/02/13)	13.1. Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar waith y Cydlynydd Wicipedia ers ei benodiad fis Mawrth 2014. 13.2. Holwyd a fyddai ffordd hawdd o ganfod deunydd y Coleg ar Wicipedia a gofynnwyd a ellid nodi hyn yn yr adroddiad dichonoldeb.	Holi MH	15 Hydref 2014
14. Cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg	14.1. Nodwyd nad yw'r is-bwyllgor wedi cynnull eto a chadarnhawyd mai Delyth Murphy fyddai'r Cadeirydd. Bydd Linda Wyn ac Owen Thomas, cydlynydd y Cynllun Astudiaethau Rhan-Amser yn aelodau.	Eitem sefydlog	15 Hydref 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	14.2. Gwahoddwyd enwebiadau o'r Bwrdd Academaidd yn ehangach ar gyfer cynrychiolaeth addas o bob sefydliad. 14.3. Bydd y Coleg yn trefnu bod un o'r Swyddogion Datblygu yn cyd-lynu cyfarfod dros y rhwydwaith yn ystod Tymor yr Haf.	Enwebu aelodau Angen penodi Swyddog Datblygu	30 Mehefin 2014 Ar unwaith
15. Cyflwyniad gan Brifysgol Caerdydd	15.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Angharad Naylor, ar 'Cangen Caerdydd – creu cyfleoedd'. Diolchwyd iddi am ei chyflwyniad cynhwysfawr a oedd yn arddangos gwaith y Gangen o fewn y sefydliad. Atodir y cyflwyniad pwynt pŵer i'r cofnodion.		
16. Materion i'w codi - Myfyrwyr	16.1. Holwyd cwestiwn am ysgoloriaethau'r Coleg gan Rhiannon Hincks ar ran y myfyrwyr a nodwyd bod y Coleg yn sicrhau bod cynifer â phosibl o Ysgoloriaethau Cymhelliant yn cael eu cynnig. 16.2. Cyfeiriodd Matthew Rees at hyfforddiant ymchwil trwy'r Gymraeg y Coleg a chanmolwyd y ddarpariaeth.		
17. Materion i'w codi - Canghennau	17.1 Cafwyd diweddariad ar sefyllfa Neuadd Pantycelyn, Prifysgol Aberystwyth gan Dr Anwen Jones. Cyfeiriodd at waith y Gangen yn cynorthwyo datblygu cynnig a fyddai'n gweld y Brifysgol ac UMCA'n cydweithio'n agos ar Gynllun Busnes ar ddefnydd Neuadd Pantycelyn i'r dyfodol fel Canolfan Gymraeg a Diwylliant a fydd yn gweithredu fel canolbwynt i'r gymuned Gymraeg gyfan, gan gynnwys myfyrwyr, staff ynghyd â'r gymuned ehangach. 17.2 <u>Panel Ymchwil a Chyhoeddi: cyfarfodydd ymchwil y canghennau.</u> Argymhellwyd bod y canghennau yn trefnu sesiynau trafod a seminarau ar y cyd er mwyn adeiladu diwylliant deallusol Cymraeg mewn ystod o feysydd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
18. Materion yn codi	18.1. <u>Eitem 5.1 - Strwythur y canghennau</u> Nodwyd bod saith cangen weithredol ac nad oedd y Coleg yn gosod canllawiau gweithredu ar eu cyfer ar hyn o bryd oherwydd y gwahaniaethau rhwng y canghennau.		
19. UFA	19.1. Nodwyd y byddai'r Swyddog Datblygu yn cylchredeg neges yn gwahodd aelodau'r Bwrdd Academaidd i gynnig enwau ar gyfer anrhydeddu Cymrodyr y Coleg ar gyfer 2015 maes o law. Nodwyd ymhellach y bwriad o sefydlu Grŵp i drafod anrhydeddau a fyddai'n cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, y Deon ac aelod o'r Bwrdd Academaidd. 19.2. Nodwyd bod rhaglen lawn yn cael ei drefnu ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol 2014 gan gynnwys darlith gan Yr Athro Gerwyn Williams ar y Rhyfel Byd Cyntaf. 19.3. Nodwyd fod Old Bell 3, mewn cydweithrediad â Dateb Cyf, wedi eu comisiynu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ymgymryd â gwerthusiad o waith y Coleg hyd yma. Mae'r gwaith maes yn yr arfaeth a cheir cyflwyniad ar y canfyddiadau rhagarweiniol ar 17 Mehefin 2014. 19.4. Diolchodd y Deon am y croeso ar yr ymweliadau i'r canghennau.	Swyddog Datblygu	Mai 2014
20. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	20.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15: • 15 Hydref 2014, Prifysgol De Cymru • 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin • 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr		